

- Tŷ Silyn, Penygroes
Caernarfon, LL54 6LY
- Uned 8 Gweithdai
Penllyn Y Bala, LL23 7SP
- 54 Stryd y Dyffryn
Dinbych, LL16 3BW
DX 23288 DENBIGH
- 33-35 Stryd Fawr
Llangefni, LL77 7NA

18/03/2020

Annwyl

Coronafirws : Neges i denantiaid Grŵp Cynefin - 18 Mawrth 2020

Mae Grŵp Cynefin yn gwerthfawrogi bod hwn yn gyfnod anodd a hoffem gynnig sicrwydd o'n hymrwymiad i gadw ein tenantiaid yn ddiogel, yn dilyn y cyngor diweddaraf gan lechyd Cyhoeddus Cymru. O ystyried y nifer cynyddol o achosion o Coronafirws yn y wlad, rydym yn gosod mesurau i ddiogelu lles ein holl denantiaid fel ein blaenoriaeth llwyr. Rydym wedi amlinellu isod yr hyn yr ydym yn ei wneud a sut y gallwch chi helpu, ond rydym hefyd wedi cynnwys adran cwestiynau cyffredin ar ddiwedd y ddogfen hon sy'n esbonio'n fanylach sut yr effeithir ar wasanaethau.

Yr hyn yr ydym yn ei wneud i helpu i leihau lledaeniad Coronafirws:

- Cau ein holl swyddfeydd a chanolfannau cymunedol i'r cyhoedd
- Canslo pob digwyddiad cyfranogiad cymunedol, gweithgareddau a'n sesiynau cymorth arian
- Canslo bob apwyntiad nad yw'n hanfodol
- Gofyn i unrhyw denantiaid sy'n hunan-ynysu i roi gwybod i ni, fel nad yw ein cydweithwyr yn dod i'ch cartref, oni bai ei bod yn hanfodol
- Gofyn i'r rhan fwyaf o'n timau i weithio o adref a gwneud yn siŵr bod ein holl gydweithwyr sydd â symptomau perthnasol yn hunan-ynysu ar unwaith

Sut y gallai hyn effeithio arnoch chi

Gan ein bod yn wynebu gweithredu gyda llai o weithlu dros yr wythnosau nesaf, byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar gefnogi ein tenantiaid mwyaf agored i niwed. Gall hyn olygu:

- Efallai y byddwn yn cymryd mwy o amser i ymateb i geisiadau atgyweirio a byddwn yn blaenoriaethu atgyweiriadau brys
- Ni fyddwn yn gallu ymateb i ymholiadau nad ydynt yn argyfwng cyn gynted ag arfer
- Mae'n bosib y bydd cymryd mwy o amser i ni i ateb galwadau ar ein rhif 0300
- Efallai y byddwn yn gofyn ichi alw yn ôl yn hwyrach os ydym yn credu nad yw eich ymholiad yn argyfwng.

Sut y gallwch chi ein helpu ni

Mw • Cysylltwch â ni dim ond os ydych chi'n credu ei fod yn argyfwng

- Gadewch i ni wybod os ydych chi'n hunan-ynysu trwy e-bostio post@grwpcynefin.org

Mae rhai ohonoch wedi bod mewn cysylltiad yn dweud eich bod yn poeni sut y byddwch yn talu'ch rhent gan fod eich incwm wedi'i effeithio. Byddem yn annog unrhyw un sy'n poeni am hyn i'n ffonio ar 0300 111 2122 a byddwn yn eich rhoi mewn cysylltiad â'ch Swyddog Tai a all eich cefnogi i hawlio'r budd-daliadau y mae gennych hawl iddynt a rhoi cyngor ynghylch talu eich biliau.

Yn bwysicaf oll, gofynnwn ichi edrych allan am eich ffrindiau, teulu a chymdogion trwy'r amser anodd hwn. Diolchwn i chi am eich amynedd a'ch dealltwriaeth dros y cyfnod yma.

Yn gywir

Angenue!

Noela Jones
Pennaeth Gwasanaethau Tai

Mwy na thai • More than housing

Cwestiynau Cyffredin:

Beth ddylwn i ei wneud os oes gen i symptomau coronafirws?

Dilynwch y canllawiau diweddaraf gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

- Hunan-ynysu am 7 diwrnod os ydych chi'n byw ar eich pen eich hun
- Hunan-ynysu am 14 diwrnod os oes gennych chi neu unrhyw un yn y cartref symptomau
- Os yw eich symptomau'n gwaethygu, ffoniwch 111 os gwelwch yn dda
- Peidiwch ag ymweld â'ch meddygfa neu'r adran damweiniau ac achosion brys.

Cofiwch ddilyn y cyngor cyffredinol o olchi'ch dwylo'n drylwyr ac yn aml, ac i orchuddio'ch peswch a'ch tisian â hancesi papur.

Y symptomau yw

- peswch parhaus
- neu dymheredd uchel

Mae gen i gyflwr meddygol sylfaenol, beth ddylwn i ei wneud?

Os ydych yn 70 oed neu'n hŷn (heb ystyried cyflyrau meddygol) neu o dan 70 gyda chyflwr iechyd blaenorol (h.y. unrhyw un sy'n cael cyfarwyddyd i gael brechiad rhag y ffliw fel oedolyn bob blwyddyn am resymau meddygol), fe'ch cynghorir i ystyried hunan-ynysu. Gweler y canllawiau pellach <https://www.gov.uk>

A fydd staff Grŵp Cynefin yn dal i gynnal ymweliadau cartref?

Bydd Grŵp Cynefin yn penderfynu a ddylid cynnal ymweliadau cartref fesul achos yn dibynnu ar ganlyniad asesiad risg.

Beth ddylwn i ei wneud os wyf yn teimlo'n bryderus am nad oes gennyf unrhyw un i fy helpu os oes angen i hunan-ynysu ?

Os oes gennych anghenion cymorth ychwanegol neu ddim mynediad at help gan deulu neu ffrindiau, cysylltwch â ni i drafod hyn ymhellach. Mae angen i ni hefyd gael gwybod eich rhif ffôn i gysylltu â chi yn ôl yr angen.

Beth os na allaf fforddio talu fy rhent ?

Os ydych chi wedi colli llawer o incwm, e.e. mae eich gweithle wedi cau; neu os ydych wedi cael eich diswyddo neu oes newidiadau yn eich amgylchiadau, megis llai o oriau gwaith neu lai o incwm, ffoniwch eich Swyddog Tai ar 0300 111 2122 cyn gynted â phosib os gwelwch yn dda.

Mae gennym Dîm Lles arbenigol a all gynnig cefnogaeth ffôn wedi'i theilwra. Cysylltwch â ni os oes angen y gwasanaeth hwn arnoch.

Gallwch wneud cais am Gredyd Cynhwysol ar unwaith os ydych ar incwm isel neu'n ddi-waith. Gweler ein gwefan am fanylion a dolenni pellach, neu cysylltwch â ni i drafod ymhellach.

Rydym yn cynnig ystod o opsiynau a dulliau i dalu'ch rhent, gan gynnwys ar-lein.

Mwy na thai • More than housing

Beth os yw fy amgylchiadau'n newid?

Rhowch wybod i ni os oes unrhyw newidiadau i'ch amgylchiadau, er enghraifft newid yn eich rhif ffôn, i sicrhau bod ein cofnodion yn gyfredol ac y gallwn gysylltu â chi cyn gynted â phosibl os oes angen.

Beth ddylwn i ei wneud os oes gennyf offer Careline?

Parhewch i gysylltu â Galw Gofal drwy eich offer teleofal . Rhowch wybod i ni os oes gennyf offer Careline a'ch bod yn hunan-ynysu i sicrhau ein bod yn eich cefnogi chi'n briodol.

Rwy'n byw mewn adeilad gydag ardaloedd / cyfleusterau cymunedol, beth yw'r cyngor i ni?

Os ydych chi'n hunan-ynysu dilynwch ganllawiau'r llywodraeth.

Os nad ydych chi'n ynysu, dilynwch ganllawiau hunan-bellhau'r llywodraeth .

Ac os oes angen arweiniad arnoch chi, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â'ch Swyddog Tai.

Pa mor hir fydd yr amodau hyn yn aros yn eu lle?

Ni allwn bennu amserlen nawr, ond byddwn yn adolygu penderfyniadau yn gyson ar sail arweiniad sy'n datblygu. Byddwn yn darparu diweddariadau rheolaidd i chi os yn bosibl a'n bod yn teimlo bod angen i ni gysylltu â chi.